



**TROI tywod yn gelfyddyd – dim ond un o’r pethau i edrych ‘mlaen atynt
mewn digwyddiad glan y môr arbennig yn y Rhyl.**

I gyd-daro gyda Blwyddyn y Môr Croeso Cymru, mae Cyngor Tref y Rhyl yn cynnal Seafest – diwrnod arbennig o weithgareddau i ddathlu ei draeth, sydd wedi ennill gwobrau.

Bydd tîm o gerflunwyr tywod arbenigol yn cynnal gweithdy ar stryd fawr y dref yn dangos i bobl sut i weddnewid tywod yn rhywbeth arbennig.

Caiff ei redeg gan Sand in your Eye – cwmni sydd wedi datblygu cerfluniau ar gyfer atyniadau megis Sw Caeredin – bydd pobl yn medru rhoi cynnig ar lunio siapiau, ffigurau a chestyll tywod na fyddant yn cwmpo.

Bydd y digwyddiad hefyd yn cynnwys ymddangosiad arbennig gan gimwch chwyddadwy o’r enw Larry, cerddoriaeth gan gôr cymunedol Ghostbuskers, a pheintio wynebau.



Meddai maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James: “Mae gan y Rhyl filltiroedd o draeth ac rydym yn awyddus i bobl wneud y mwyaf ohono. Ond hanner yr hwyl yw gwneud pethau newydd a chyffrous allan o dywod.

“O gestyll tywod sy’n aros i fyny i gerfluniau o anifeiliaid bach, bydd ein gweithy yn rhoi cyfle i bobl roi cynnig ar lunio celfyddyd dan hyfforddiant ein harbenigwyr, cyn mynd allan ar y traeth i ymarfer eu talentau.”

Cynhelir y digwyddiad ar stryd fawr y dref, gan wneud y mwyaf o gysylltiadau’r dref gyda’r môr.

“Mae’n wych bod gennym stryd fawr a thraeth mor agos at ei gilydd. Mae cynnal y digwyddiad hwn, sydd am ddim, ar y stryd fawr, yn ystod yr hyn sy’n ddathliad o’r môr yng Nghymru, yn ein galluogi i wneud y mwyaf o’r cysylltiadau hynny, gan gefnogi’r stryd fawr ar yr un pryd. Rwy’n edrych ymlaen at gael hyd i’r bwced a rhaw, a rhoi cynnig arni,” ychwanegodd y Cynghorydd James.

Cynhelir Seafest ar ddydd Llun 28ain Mai rhwng 11am-4pm.

Diwedd

